**Cyngor Cymuned Y Fali**

**Polisi Noddi Mainc**

Reviewed: 21/05/2025 Approved: 21/05/2025

Gellir cyflwyno cais noddi mainc i'r cyngor er coffa am berson annwyl neu gellir caniatau i aelod o'r cyhoedd wneud cyflwyniad o'u dewis. Gellir lleoli mainc a gyflwynwyd er coffa ar dir sydd naill ai ym merchenogaeth Cyngor Cymuned y Fali neu a reolir ganddo.

Dyma'r llecynnau:-

Parc Cymunedol Parc Mwd
Y man chwarae sydd ar bwys Ysgol Gymuned y Fali
Ynys Wen (caniateir dim mwy na phedair mainc yn y Fynwent ar yr un pryd)

Mae'r Cyngor yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth ac mae wedi mabwysiadau rhaglen dros gyfnod o flynyddoedd o newid pob mainc gyda meinciau newydd wedi eu gwneud o ddeunydd y gellir eu hailgylchu.

Gallwch gyflwyno mainc newydd o ddeunydd y gellir ei ailgylchu ynghyd â phlac o ddur 'stainless' gyda geiriau o'ch dewis chi.

**Darpariaeth Trydydd Parti ar gyfer Meinciau**

Yn anffodus, nid ydym yn caniatau i drydydd parti ddarparu eu meinciau eu hunain i'w rhoi ar dir y Cyngor Cymuned. Mae sawl rheswm dros hyn.

- Dim sicrwydd o ansawdd nac o hyd bywyd y fainc (mae Cyngor Cymuned y Fali yn darparu meinciau o safon, wedi eu paratoi am oes hir ac wedi eu cynllunio i'w defnyddio gan y cyhoedd).
- Rydym yn ceisio sicrhau bod pob un o'n meinciau yn edrych yr un fath a hynny ym mhob un o'n safleoedd o gwmpas y Pentref. Os bydd pobl yn dechrau darparu eu meinciau eu hunain bydd gennym feinciau o bob lliw a llun.

**Mainc Newydd – Maint a Chostau**

Lled mainc safonol o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yw 1.8m. Mae'r pris yn cynnwys plac o faint safonol o ddur 'stainless' wedi ei osod yn ddiogel ar reilen gefn y fainc. Cost £910.00.

Nid oes Treth ar Werth ar y pris ar gyfer mainc er cof ac mae'n cynnwys y plac, y fainc, gosod y fainc a 10 mlynedd o gynnal a chadw. Gall y gost amrywio o dro i dro pan fydd y Cyngor yn adolygu ei brisiau a'i ffioedd.

Bydd angen talu'r ffi o £910 yn llawn cyn y gellir prosesu eich cais.

Mae'r ffi yn cynnwys y canlynol:-

- Y fainc ei hunan
- Plac o ddur 'stainless' gydag arsgrifen arno. Maint plac safonol o ddur 'stainless' yw 63 x 152mm. Ceir hyd at 5 llinell o arsgrifen heb ddim mwy na 36 o nodau mewn unrhyw linell. Dylir cyflwyno'r arsgrifiad wedi ei brintio wrth archebu. Nid yw'r Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriadau yn yr argraffu.
- Gwaelod a gosod (os nad oes angen gwaelod yna fe ddidynnir y swm perthnasol ar gyfer hyn o'r gost a'i ad-dalu)

**Cynnal a Chadw**

Fel arfer cedwir meinciau newydd a gyflwynwyd er coffa ar y safle am gyfnod o ddeng mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn cyfrifoldeb y Cyngor fydd cynnal a chadw'r fainc gan gynnwys unrhwy waith trwsio rhesymol ac mae'r gost o wneud hynny wedi ei chynnwys yn y ffi a nodwyd uchod.

**Difrod a Fandaliaeth**

Os caiff mainc ei difrodi fel nad oes modd ei thrwsio, bydd y Cyngor yn cael gwared ohoni. Fe hysbysir y person a gyflwynodd y fainc petai angen gwneud hyn.

**Amser Aros**

Ymdrinnir â cheisiadau am feinciau er cof trwy gydol y flwyddyn. Pan ddaw cais gerbron y Cyngor bydd yn ymateb o fewn 10 diwrnod o ddyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor. Unwaith y caiff cais ei gymeradwyo fe all gymryd hyd at 12 wythnos i osod y fainc a'r plac.

**Amodau'r Cyflwyno**

Bydd meinciau a gyflwynwyd er cof yn cael eu gosod am gyfnod penodol o ddeng mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod o ddeng mlynedd bydd y Cyngor yn ceisio cysylltu gyda'r person a gyflwynodd y fainc i gynnig ymestyn y cyfnod yn seiliedig ar beth fydd y gost o wneud hynny ar y pryd. Os na fydd cytundeb newydd ar ôl deng mlynedd, bydd y fainc yn cael ei rhoi o'r neilltu ac ar gael i'r person a'i chyflwynodd petai angen.

Bydd y Cyngor yn ceisio lleoli'r fainc yn y man a ddymunir gan y rhoddwr. Bydd gan y Cyngor yr hawl i wrthod cais os yw'r lleoliad a ddymunir yn anaddas gan gynnig lleoliad arall.

Unwaith  bydd y fainc wedi ei gosod bydd yn eiddo i'r Cyngor.  Bydd y Cyngor wedyn yn atebol amdani ac yn gyfrifol am yr holl ofynion cynnal a chadw.  Ni ddylai'r person sy'n cyflwyno'r fainc, eu teulu, neu unrhyw gynrychiolwyr  wneud unrhyw waith cynnal a chadw.

Mae llecynnau cyhoeddus y Cyngor Cymuned ar gael er budd pawb ac o'r herwydd nid ystyrir hwy yn erddi 'coffa'.  O ganlyniad ni chaniateir gadael blodau neu unrhyw eitemau eraill er cof ar y fainc neu ger y fainc.  Bydd y Cyngor yn symud unrhyw eitemau o'r fath.

Pan ddaw cyfnod cyflwyno'r fainc i ben, ac os na fydd hi'n bosibl cysylltu gyda'r sawl a'i rhoddodd i gynnig ymestyn y cyfnod, neu os  na fydd y rhoddwr yn dymuno adnewyddu'r cyfnod, gall y Cyngor dynnu'r plac er coffa a phetai'n ymarferol ei anfon yn ôl at gyflwynydd y fainc.

Cyfrifoldeb y person sy'n cyflwyno mainc yw hysbysu'r Cyngor os bydd eich cyfeiriad neu fanylion cyswllt yn newid.